# Asesiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Gresffordd



*Mabwysiadwyd Medi 2009*

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

## Cysylltiadau

Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â'r
Prif Swyddog Cynllunio
Yr Adran Gynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR

Ffôn: 01978 292019
Ebost: planning@wrexham.gov.uk
www.wrecsam.gov.uk/cynllunio

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac ar ffurfiau gwahanol ar gais.
Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor

# Cynnwys


## Rhan I - Asesiad Cymeriad

| | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Rhagymadrodd | 3 |
| 2.0 | Hanes a Datblygu | 5 |
| 3.0 | Crynodeb o'r Cymeriad Arbennig | 10 |
| 4.0 | Ardaloedd Cymeriad | 13 |
| 5.0 | Crynodeb o'r Ffactorau Negyddol | 23 |

## Rhan II - Y Cynllun Rheoli


| | | |
|---|---|---|
| 6.0 | Cynigion Cadw a Gwella | 26 |
| 7.0 | Canllawiau Dylunio | 29 |
| 8.0 | Mesurau Rheoli yn yr Ardal Gadwraeth | 31 |
| 9.0 | Ffynonellau Cyllid | 33 |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | 34 |
| Adeiladau Rhestredig | |
| Atodiad 2 | 35 |
| Canllawiau Polisi Cadwraeth | |
| Atodiad 3 | 36 |
| Rhestr Termau | |

## Ffigurau


| | |
|---|---|
| Ffigur 1 Ardal Gadwraeth Gresffordd | 2 |
| Ffigur 2 Gresffordd 1872 | 6 |
| Ffigur 3 Gresffordd 1899 | 9 |
| Ffigur 4 Ffiniau Ardal Gadwraeth Gresffordd | 12 |
| Ffigur 5 Y Stryd Fawr | 14 |
| Ffigur 6 Yr Eglwys a'r Grîn | 18 |

Llun o Ardal Gadwraeth Gresffordd
o'r Awyr 2006





# Rhan I
# Asesiad Cymeriad




Ffigur 1 - Ardal Gadwraeth Gresffordd



# 1 Rhagymadrodd

## Dynodiad fel Ardal Gadwraeth

1.1 Mae'n ofynnol yn ôl Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i Awdurdodau Lleol enwi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y byddai'n ddymunol cadw neu wella'u cymeriad neu'u hymddangosiad, fel rhai i'w dynodi'n ardaloedd cadwraeth.

### Pwrpas

1.2 Pwrpas Asesiad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth yw:

- Darparu diffiniad clir o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr ardal
- Nodi ffyrdd o gadw a gwella'i nodweddion unigryw drwy'r Cynllun Rheoli
- Cryfhau'r cyfiawnhad o blaid dynodi
- Creu cyd-destun clir i ddatblygu yn y dyfodol yn unol â'r polisïau ardaloedd cadwraeth yn y cynllun datblygu
- Darparu cyfrwng ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth

## Ardal Gadwraeth Gresffordd

1.3 Nod yr Asesiad a'r Cynllun Rheoli hwn yw hyrwyddo a chefnogi datblygiadau sy'n cyd-fynd â, neu'n gwella, cymeriad Ardal Gadwraeth Gresffordd. Nid ymgais i fygu newid mohono. Y nod yw taro cydbwysedd fel bod y buddiannau cadwraeth yn cael eu hystyried yn llawn yn erbyn yr angen i newid a datblygu. Cafodd Ardal Gadwraeth Gresffordd ei dynodi'n gyntaf ym mis Awst 1975 a diwygiwyd ei ffiniau ym mis Tachwedd 1999. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r rhesymau dros ddynodi, gan ddiffinio'r rhinweddau sy'n creu diddordeb, cymeriad ac ymddangosiad pensaernïol a hanesyddol yr ardal. Os na chyfeirir at adeilad, nodwedd neu ofod neilltuol, ni ddylid cymryd fod hynny'n golygu nad yw o ddiddordeb.

## Y Cyd-destun Cynllunio

1.4 Dylai'r ddogfen hon gael ei darllen ynghyd â Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 2005, a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, yn arbennig Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

## Lleoliad

1.5 Mae Ardal Gadwraeth Gresffordd yn cwmpasu calon y pentref hanesyddol, sydd oddeutu pedair milltir i'r gogledd-ddwyrain o Wrecsam ar y B5445 hen ffordd Wrecsam i Gaer, ac oddeutu pum milltir i'r de o Gaer. Datblygodd y pentref ar bentir gwastad uwchlaw rhan o ddyffryn afon Alun ac iddo lethrau serth wrth i'r afon lifo tua'r gogledd-ddwyrain i ymuno ag afon Dyfrdwy. Canolbwynt yr Ardal Gadwraeth yw eglwys Gradd 1 odidog y plwyf, Eglwys yr Holl Saint, a'r datblygu, sy'n cynrychioli'r gwahanol gyfnodau yn hanes y pentref.

## Daeareg

1.6 Mae daeareg yr ardal yn gymysgedd o ddyddodion glo Carbonifferaidd, tywodfaen a dyddodion tywod a graean, ac maent i gyd wedi cael eu cloddio'n helaeth gan adael eu hôl ar yr amgylchedd adeiledig a chymdeithasol.

## Ymgynghori

1.7 Ymgynghorwyd ynghylch y ddogfen hon â Chynghorau Cymuned, aelodau Cyngor ac amryw o fudiadau a grwpiau sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol a'r ardal leol. Ymgynghorwyd hefyd â chyrff statudol fel Cadw. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2009 a hynny'n cynnwys arddangosfeydd cyhoeddus yn Neuadd Goffa Ymddiriedolaeth Gresffordd a Llyfrgell a Chanolfan Gelfyddydau Wrecsam.


30



# 2 Hanes a Datblygu

2.1 Mae tystiolaeth fod pobl o'r Oes Efydd wedi anheddu yn ardal Wrecsam mor gynnar â 2800 C.C., a phobl o'r Oes Haearn o oddeutu 800 C.C. Bu gan y Rhufeiniaid bresenoldeb yma hefyd, fel y dengys yr allor Rufeinig a ganfuwyd yng ngwaith maen eglwys yr Holl Saint wrth wneud newidiadau iddi yn 1908. Efallai fod Stryd Fawr Gresffordd yn rhan o'r Ffordd Rufeinig a oedd yn arwain o Gaer i'r Ffridd, gan ddarparu dolen gyswllt gynnar bwysig rhwng pentrefi.



2.2 Mae cysylltiad agos rhwng hanes cynnar Gresffordd a'r cyffiniau â'r ffaith i'r ardal gael ei meddiannu'n hanesyddol gan gymunedau Cymraeg a Saesneg am yn ail. Mae'r gwahanol ddehongliadau o enw'r pentref yn tystio i hynny. Cred y Saeson fod yr enw Gresford yn deillio o 'grassy ford', a chred y Cymry mai llygriad o 'Y Groes Ffordd' neu 'Croesffordd' (sef 'y ffordd at y groes') yw. Gallai hyn gyfeirio at y groes ganoloesol, y mae olion ohoni i'w gweld ar gyffordd ffyrdd Wrecsam i Gaer a Gresffordd i Rosnesni. Er nad dyma oedd ei lleoliad gwreiddiol, efallai, mae maint y plinth yn awgrymu ei fod yn adeiladwaith trawiadol.




2.3 Efallai mai pridd ffrwythlon Dyffryn Alun oedd yr ysgogiad gwreiddiol i anheddu yma. Gan fod yr ardal yn wreiddiol yn hynod o goediog, byddai'r anheddwyr wedi cwympo coed, aredig caeau a phlannu cnydau, gan adeiladu gwersyll ar dir uwch er diogelwch.

2.4 Mae'r pentref wedi'i restru yn llyfr Domesday fel 'Gretford', yng Nghantref Estyn neu Extan, a oedd yn rhan o Swydd Gaer. Roedd eisoes yn bentref ffyniannus a llwyddiannus gyda thir a phoblogaeth i gynnal 12 aradr, melin, offeiriad ac eglwys. Pennwyd mai 65 swllt arian oedd gwerth y pentref.

2.5 Twf yr eglwys oedd yr ail ffactor i ysgogi datblygiad Gresffordd. Credir mai'r eglwys yng Ngresffordd sy'n cael ei chrybwyll yn arolwg Domesday oedd Capel Sant Leonard de Glyn ar lôn Pont y Capel, a godwyd fel capel preifat i luoedd y Saeson a oedd wedi'u gorsafu yng Nghastell Rofft yn Marford. Dechreuodd y capel fynd â'i ben iddo oddeutu 1452 ac fe'i crybwyllwyd am y tro olaf yn 1459. Yr unig atgof o'r eglwys hon bellach yw bod yr enw wedi goroesi yn enw'r lôn, Pont y Capel.



2.6 Yn ôl pob tebyg mae'r eglwys bresennol yn deillio o'r 13eg ganrif. Erbyn hynny, mae'n bosibl fod y safle eisoes wedi cael ei sefydlu fel lleoliad crefyddol pwysig. Mae presenoldeb ywen 1,500 mlwydd oed yn y fynwent yn awgrymu fod y safle'n cael ei ddefnyddio yn yr oes a fu, gan fod coed yw'n cael eu hystyried yn sanctaidd gan bobl yr Oes Haearn. Credir bod yr allor Rufeinig a ddarganfuwyd yn 1908 yn rhan o gysegrfa Rufeinig - Brydeinig yn dyddio'n ôl i rhwng 100 a 350 OC.




Ffigur 2 Gresffordd 1872

*Yr Arolwg Ordnans (mapio) © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100023429. 2007*

2.7 Codwyd eglwys garreg yn y 13eg ganrif, ac mae rhannau o hon i'w gweld o hyd yn y tŵr gorllewinol a'r ystlys ogleddol. Credir bod yr eglwys yn gartref i grair hynafol neu ddelwedd a oedd yn gyfrwng gwyrthiau, a'i bod yn denu nifer enfawr o bererinion. Gallai hynny egluro'i maint a'i hymddangosiad mawreddog, sy'n anarferol i eglwys wledig ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y safle yn y gymuned grefyddol. Collwyd y crair yn ystod y Diwygiad ond credir mai yn y gilfach a chanopi drosti yng Nghapel Mair y câi ei gadw.





2.8 Roedd yr eglwys yn bwrw'i chysgod dros yr ardal gyfagos, a chafodd ei hailgodi yn y 15fed ganrif gyda rhoddion y llu o bererinion a thrwy nawdd Thomas Stanley, Iarll Derby. Fe'i hailgodwyd yn yr arddull sythlin a daeth yn un o eglwysi plwyf harddaf Cymru. Mae'r diffyg rhaniad strwythurol rhwng corff a changell yr Eglwys yn rhoi cymeriad Cymreig iddi, ac mae dylanwadau Seisnig i'w gweld yn y sgriniau claeruchdwr tal a'r to panelog nenbren crwm. Achosodd hyn iddi gael ei disgrifio fel 'eglwys berffaith o fath Swydd Gaer yng Nghymru'.



2.9 Adeiladwyd y tŵr trawiadol yn yr 16eg ganrif, er bod ei rannau isaf yn tarddu o'r 14eg ganrif. Mae'n tra-arglwyddiaethu dros ddyffryn Alun, gan wneud yr eglwys yn dirnod y mae modd ei weld o filltiroedd lawer. Clychau'r eglwys yw'r set drymaf yng Ngogledd Cymru, gyda'r gloch drymaf yn pwyso 24 canpwys (1,222kg). Maent yn nodedig am burdeb ac eglurdeb eu sain a chânt eu clodfori mewn rhigwm ysgrifenedig dienw fel un o saith rhyfeddod Cymru. Ychwanegwyd pedair cloch arall yn 2006, wedi'u lleoli o dan yr wyth gwreiddiol, fel bod modd dewis pa un i ganu sain trwm ynteu ysgafn. Mae yma hefyd fecanwaith i ganu'r clychau. Mae sŵn clychau'r eglwys, pa un a ydynt yn cael eu canu â llaw ynteu drwy fecanwaith, yn rhan o gymeriad traddodiadol y pentref, gan ei fod mor agos at y ffin â Lloegr.



2.10 Mae gosodiad yr eglwys yn neilltuol o ddeniadol. Saif mewn ffrâm o goed yw, wedi'i hamgylchynu gan wal sylweddol o dywodfaen a rheiliau haearn arni, i atal anifeiliaid sy'n crwydro rhag bwyta'r coed yw gwenwynig - a hynny'n dangos cymeriad gwledig yr ardal ar y pryd.



2.11 Datblygodd pentref Gresffordd o amgylch yr eglwys, gyda llawer o adeiladau'n darparu ar gyfer gofynion y clerigwyr ac, o bosibl, pererinion a thwristiaid. Nid yw patrwm y strydoedd wedi newid fawr dros y canrifoedd.

2.12 O gyfnod cynnar yn yr 16eg ganrif, ar ôl diddymu'r mynachlogydd, crëwyd stadau tiriog mawr fel y rhai yn Horsley Hall, Trevalyn Hall a Llay Hall, yn yr ardal o gwmpas y pentref. Rhoddai eu teuluoedd nawdd i eglwys y plwyf a chyflogaeth i'r werin leol. Cafodd stad Trevalyn effaith arbennig ar Resffordd, gan adeiladu filâu mawr ar dir yn y pentref ac yn ffinio â'r eglwys mewn ymgais i reoli materion lleol.

2.13 Wrth i werthoedd cymdeithasol a chyfrifoldeb moesol ddatblygu yn ystod y 18fed ganrif, codwyd elusendy ac ysgoldy, mewn adeiladau yn ffinio â'i gilydd gyferbyn ag eglwys y plwyf yn 1725. Buan y tyfodd yr ysgol yn rhy fawr i'r adeilad, a bu rhaid ychwanegu tŷ i'r ysgolfeistr yn 1786, sydd erbyn hyn yn cael ei alw'n Strode House, yna yn 1838 codwyd dau ysgoldy newydd, ynghyd ag ysgoldy i fabanod yn 1854, sef 'Ysgoldy' Church Houses erbyn hyn. Mae'r tri adeilad yn dri eiddo ar wahân yn awr, gyda'r unedau ar y ddau ben yn dai byw preifat a'r rhan ganol yn cael ei defnyddio fel ystafelloedd cwrdd gan yr eglwys. Mae arysgrifau i'w gweld uwchben drysau'r adeiladau, yn dangos eu defnydd gwreiddiol.



2.14 Roedd yr ysgol yn dal i dyfu ac yn 1874 codwyd ysgol newydd i fechgyn ar Allt yr Ysgol, er coffa am Thomas Vowler Short, diweddar Esgob Llanelwy. Cafodd yr ysgol ei hehangu eto yn 1910, pan godwyd yr ysgol brics coch.



2.15 Yn y 19eg ganrif, daeth y rheilffordd i Resffordd. Darparwyd gwell cyflenwad dŵr hefyd yn y cyfnod hwn ar ffurf pwmp hydrolig i bwmpio dŵr i bedwar tap cyhoeddus - mae un o'r rhain i'w weld o hyd ar y gyffordd wrth ymyl tafarn y Plough. Tan hynny roedd y prif gyflenwad dŵr yn dod o Ffynnon Santes Catherine ar Lôn Springfield a châi ei gludo i'r pentref gan ddefnyddio troliau dŵr neu gasgenni a mulod.




2.16 Cafwyd datblygu pellach yn gynnar yn yr 20fed ganrif gyda sefydlu'r Wrexham and Westminster Colliery Company yn 1908, a dechrau cynhyrchu glo yn 1911. Bu'r pwll yn cyflogi hyd at 2200 o ddynion, ond ni wnaeth Gresffordd erioed ddatblygu'r haenau niferus o derasau a geid mewn ardaloedd glofaol eraill. Deuai'r gweithwyr o'r pentrefi niferus yng nghyffiniau Wrecsam. Caiff pwll Gresffordd ei gofio oherwydd trychineb 1934 pan gollodd 266 o ddynion eu bywydau. Roedd yn drasiedi a effeithiodd ar deuluoedd ym mhob stryd yng Ngresffordd. Caeodd y gwaith yn 1973 a chafodd cofeb, yn defnyddio'r hyn a oedd ar ôl o'r olwyn godi, ei chodi yn 1982. Mae eglwys y plwyf hefyd yn cynnwys peintiad i goffáu'r drychineb.

2.17 Saif eglwys y plwyf yng nghanol hanesyddol Gresffordd, mewn ysblander urddasol, yn hoelio'r sylw o'r tu mewn a'r tu allan i'r Ardal Gadwraeth. Mae'r rhan hon o'r pentref wedi cadw'i hapêl wledig, a cheir yma ymdeimlad o dawelwch heddychlon er gwaethaf yr holl geir ar y strydoedd. Mae'r datblygu modern wedi digwydd yn bennaf yng nghyffiniau Ffordd Caer a'r ardal i'r dwyrain o'r pentref, ac mae'r amgylchedd deniadol a'r cysylltiadau trafnidiaeth da wedi gwneud Gresffordd yn bentref cymudo poblogaidd a chefnog.









Station
Glasfryn
Pant Lane
Vicarage
Griffin Inn
Almshouses
Infant School
Stone
All Saints' Church
(Vicarage)
Grave Yard
School
Gresford



# 3 Crynodeb o'r Cymeriad Arbennig

3.1 Mae Cymeriad Arbennig Ardal Gadwraeth Gresffordd yn deillio o osodiad yr Eglwys a'r Llyn ynghyd â'r rhesi hir o dai a bythynnod o'r 19eg ganrif, sy'n cyferbynnu â'r filâu ar eu pen eu hunain gyda thir helaeth o'u cwmpas. Mae'r maes adloniant i'r de-ddwyrain o'r Llyn a'r caeau i'r gorllewin o'r Eglwys yn fannau agored pwysig sy'n caniatáu golygfeydd trawiadol i mewn i'r ardal gadwraeth ac allan ohoni. Ceir yng Ngresffordd gyfuniad annisgwyl o nodweddion gwledig diwedd y 18fed / dechrau'r 19eg ganrif a nodweddion trefol y 19eg ganrif hwyr.



## Eglwys yr Holl Saint

3.2 Mae'r Eglwys yn adeilad Rhestredig Gradd I ac yn dirnod pwysig sy'n darparu ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth. Mae'n hynod oherwydd ei maint a'i harddwch, yn cynnwys henebion arbennig yn fewnol ac yn allanol (mae wal y fynwent a chofebion ar feddau wedi cael eu rhestru ar wahân), a gwelir ynddi fanylion pensaernïol diddorol ac atyniadol. Mae topograffi'r tir yn bwysig, yn dylanwadu ar leoliad yr Eglwys ar dir uchel, uwchlaw Dyffryn Alun, y gellir ei werthfawrogi wrth fynd i mewn i'r Ardal Gadwraeth o'r gogledd-orllewin i fyny Singret Hill. O bedrannau'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain, sy'n edrych dros ddyffryn gwastad, llydan, afon Dyfrdwy, byddai'r eglwys wedi bod yn weladwy am filltiroedd lawer.



## Y Llyn

3.3 Y llyn yw'r canolbwynt wrth fynd i mewn i'r Ardal Gadwraeth oddi ar Ffordd Caer. Mae Eglwys y Plwyf yn dirnod trawiadol wrth edrych ar y pentref o'r lleoliad hwn. Mae'r nifer fawr o goed aeddfed hefyd yn bwysig yma, gan feddalu caledwch yr amgylchedd adeiledig a chyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad gwledig yr ardal yn ogystal ag at osodiad adeiladau unigol a'r pentref yn gyffredinol.



## Cynllun Ffyrdd Hanesyddol

3.4 Mae'r ffyrdd yn ymledu o'r Eglwys gan bwysleisio'i phwysigrwydd yn nhwf y pentref. Ychydig iawn o newid fu i gynllun y strydoedd a'r patrwm anheddu hyd heddiw. Mae'r cynllun strydoedd hanesyddol ar hyd y Stryd Fawr yn llinol gyda'r adeiladau i gyd yn wynebu'r ffordd a chribau'r toeau i gyd yn gyflin â hi - nid oes iddynt



fawr ddim, neu ddim, ffryntiad preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r bythynnod a rhifau 1 i 11 yn y rhes wedi cael eu codi'n uniongyrchol wrth ymyl y ffordd. Mae'r llinell adeiladu a'r amrywiaeth arddulliau a defnyddiau adeiladu ar hyd y Stryd Fawr yn creu strydwedd ddiddorol a deniadol sy'n bwysig yng nghymeriad y pentref.

## Manylion Ffiniau

3.5 O fewn y craidd hanesyddol mae'r rhain yn gwneud cyfraniad neilltuol o bwysig i gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig y pentref. Mae'r wal dywodfaen enfawr o ddechrau'r 19eg ganrif gyda'r rheiliau a cholofnau amlwg y clwydi ar safle'r Eglwys yn arbennig o amlwg. Mae wal derfyn Ysgol Gynradd yr Holl Saint o oddeutu'r 1870au yn debyg i wal yr Eglwys. Mae wal derfyn amlwg iawn o dywodfaen hefyd yn Llwyn Eglwys. Mewn mannau eraill, mae waliau brics coch o'r 19eg ganrif a cherrig copa tywodfaen dafad ac oen neu gerrig copa teracota Fictoraidd hanner crwn mwy diwedder yn amlwg. Mewn mannau eraill eto nid oes manylion ffiniau gan fod y tai yn cyffwrdd yn uniongyrchol â'r stryd, a hynny i bob diben yn cyfuno'r cyhoeddus a'r preifat gan greu ymdeimlad o agosatrwydd yn y strydwedd sy'n dwysáu cymeriad gwledig y pentref.





## Amrywiaeth Pensaernïol

3.6 Mae amrywiaeth o arddulliau pensaernïol yn cyfoethogi'r ardal: mae arddulliau Sioraidd, Fictoraidd a Chelfyddyd a Chrefft i gyd yn cael eu cynrychioli. Mae'r rhesi tai Fictoraidd nodweddiadol wedi'u haddurno â llin-gyrsiau a chornisiau addurnol o frics teracota - mae'r filâu o'r 18fed a'r 19eg ganrif yn arddangos ffurf gymesur gynnar gydag ailfodelu diweddarach.




## Cyfraniad Coed

3.7 Mae'r coed yw yn y fynwent yn elfen sylfaenol yng ngosodiad yr eglwys, fel y mae'r llain trionglog o laswellt sy'n cael ei alw'n 'Grîn'. Mae gan Cedar House, sef y ficerdy yn wreiddiol, goed cedrwydd arbennig o drawiadol ac mae coed helyg pwysig o amgylch y llyn. Mae'r coetir sy'n gefnlen i'r Ardal Gadwraeth ar Singret Hill yn goetir llydan-ddeiliog pwysig o goed ffawydd yn bennaf ond ceir yno hefyd goed derw a masarn.






Ffigur 4: Ffiniau Ardaloedd Cymeriad Ardal Gadwraeth Gresffordd
Eglwys Gresffordd a'r Grîn
Y Stryd Fawr
Yr Arolwg Ordnans (mapio) © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100023429. 2007





# 4 Ardaloedd Cymeriad

## Y Stryd Fawr: Gresffordd yn y 19eg Ganrif



4.1 Gellir is-rannu'r Ardal Gadwraeth yn 2 ardal cymeriad wahanol fel y dangosir yn ffig. 4 ac y disgrifir isod:

4.2 Wrth ddod i mewn i'r Ardal Gadwraeth o Ffordd Caer, ceir golygfa hyfryd o'r pentref gyda'r llyn yn y tu blaen ac Eglwys y Plwyf yn y cefndir. Mae'r llyn yn nodwedd bwysig iawn ac yn ganolbwynt i'r pentref, ac mae'n cynnal llawer o fywyd gwyllt. Amherir ar gefnlen yr olygfa o'r llyn ar ei ochr orllewinol gan y datblygiad tai modern, sy'n amlwg am eu bod ar dir uwch ac nad ydynt ond yn cael eu cuddio'n rhannol gan goed.



4.3 Mae gan Lake View Terrace ffurf linol gref sy'n creu cefnlen ddramatig i'r llyn. Mae'r ffin gerllaw'r rhes dai, nad yw'n hawlio sylw, yn creu continwwm o ran gofod ac mae'n cyfuno'r cyhoeddus a'r preifat.


4.4 Mae'r rhes dai wedi'i haddurno â ffenestri bae sgwâr ar y llawr isaf a phatrwm brics teracota deintellog uwchben sy'n cael ei adlewyrchu yn llinell y bondo. Mae llin-gwrs teracota, teils cribog ar y grib, simneiau corbelaidd, ffenestri lintel uwchben y drysau a linteli tywodfaen yn ychwanegu rhagor o fanylder. Mae'r holl waith saer ar y ffenestri a'r drysau wedi cael ei newid ond nid felly'r agoriadau, felly byddai'n bosibl adfer y manylion pensaernïol cywir yn y dyfodol. Mae gan y rhes wal derfyn isel o frics coch i'r tu blaen gyda cherrig copa teracota hanner crwn. Yn wreiddiol roedd ganddynt i gyd golofnau clwydi o dywodfaen melyn a chlwydi haearn bwrw.

4.5 Mewn cyferbyniad i weddill yr adeiladau yn y Stryd Fawr, cafodd Glanyllyn - fila sy'n deillio o'r 1930au fel Lake Cottage - ei gosod ymhellach yn ôl na'r ffordd yn fwriadol mewn man amlwg yn edrych dros y llyn, gyda thir o'i chwmpas. Cafodd tir cyffiniol ei gynnwys yn rhan o'r safle a'r effaith oedd defnyddio hierarchaeth lle fel symbol o statws. Yn wreiddiol roedd yn gymesur ei ffurf, ond erbyn hyn mae ffenestr fae ar y chwith ac ychwanegwyd estyniad talcendo yn ddiweddarach ar y dde sy'n ymwthio ymhellach ymlaen. Ymysg y nodweddion pensaernïol Sioraidd gorau yn yr adeilad mae conglfeini carreg, ffenestri dalennog a phortsh tywodfaen pedimentog clasurol a ffenestr lintel siâp hanner cylch.





Ffigur 5 Y Stryd Fawr




*Yr Arolwg Ordnans (mapio) © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100023429. 2007*



4.6 Amharwyd ar osodiad arbennig Glanyllyn a'r ffordd ddynesu at yr Ardal Gadwraeth yn ddiweddar drwy godi dau dŷ mawr modern ar dir yr eiddo. Nid yw cyfeiriadedd, cynllun, lleoliad, graddfa a dyluniad y tai newydd hyn yn parchu'u cyd-destun ac maent yn estron i'r ardal gadwraeth. Mae'r defnyddiau - toeau llechi, gwaith brics ar yr wyneb a linteli ac is-siliau ffenestri carreg wedi'u castio - ar wahân i'r landeri a'r pibellau dŵr PVCu yn gwbl briodol ond mae'r talcendo yn adlewyrchiad rhy amlwg o'r talcendo ar yr estyniad bach at Glanyllyn. Yr unig enghraifft arall o dalcendo yw'r un yn Yew Tree Villa. Nid yw ffurf y dylunio drwyddi draw yn adlewyrchu pensaernïaeth gynhenid na chynllun hanesyddol y rhan hon o'r ardal gadwraeth, sef rhesi o dai gyda thoeau talcen sydd â'u cribau yn gyflin â'r stryd. Mae adleoli'r wal derfyn wreiddiol o dywodfaen er mwyn gwella gweledigaeth i'r tai newydd, a'r palmant llydan modern ar hyd y Stryd Fawr wedi gwneud y sefyllfa hon yn waeth. Cafodd y wal ei hailgodi gan ddefnyddio morter sment caled o liw amhriodol sy'n gwneud iddi edrych yn hyll a bydd yn peri i'r tywodfaen meddal erydu cyn ei amser.





4.7 Mae Lake House yn dynodi dechrau'r rhesi tai ar hyd y Stryd Fawr. Fe'i codwyd o frics coch Rhiwabon gyda simneiau corbelaidd, cornis rhosyn teracota a linteli ac is-siliau tywodfaen. Mae'r fynedfa ar gornel sy'n agor ar led gyda mowldin capan teracota a stopiau deiliog, sy'n cael eu hailadrodd wrth ddrws y fynedfa ochr. Mae pilastrau, ffasgiâu a chornis yr wyneb siop gwreiddiol yn dal yn eu lle ond mae'r holl waith coed arall wedi cael ei newid am goed a PVCu amhriodol.

4.8 Dwy res o dai yn cael eu gwahanu gan ale gul yw Rhifau 1 i 11 y Stryd Fawr. Lake House a Rhifau 9-11 ac 1-4 oedd y cyntaf i gael eu codi (gweler ffigur 3), a chwblhawyd gweddill y rhes ar ôl dymchwel adeilad cynharach. Mae tu blaen y ddwy res wedi'i godi o frics Rhiwabon gyda siliau ffenestri a linteli o dywodfaen; mae llin-gwrs teracota addurnol a chornis bondo yn cyfoethogi'r manylder pensaernïol. Toeau llechi sydd i'r ddwy res gyda theils clai coch ar y grib a simneiau brics amlwg gyda chyrsiau bargodol a chyrn teracota. Mae'r mwyafrif helaeth o'r ffenestri dalennog a'r drysau panelog wedi cael eu newid - rhai'n ddiweddar - am rai modern amhriodol. Mae'r ffenestr lintel








uwchlaw drws rhif 11 yn un blwm wreiddiol o wydr lliw gyda chynllun pedairdalen canolog. Saif y rhes y tu ôl i wal brics coch isel sydd â cherrig copa teracota hanner crwn, colofnau clwydi tywodfaen gyda chlwydi haearn bwrw gwreiddiol a llwybrau o deils chwarel coch a llwyd wedi'u gosod mewn patrwm diemwntau neu gerrig palmant glas Fictoraidd.

4.9 Saif The Croft ar dir uwch yn y Stryd Fawr. Fe'i codwyd o frics coch Rhiwabon ond mae ffenestri modern wedi amharu arno. Mae iddo hen wal dywodfaen a gwrych yn y tu blaen sy'n cyd-fynd â chymeriad lled wledig yr ardal.



4.10 Tŷ o 1999 yw The Brambles a osodwyd yn rhy bell yn ôl o'r ffordd ac mae yn anffodus yn tarfu ar rythm y llinell a'r patrwm adeiladu tynn yn y rhan hon o'r Stryd Fawr. Ceir arno hefyd nifer o beipiau draeniau budr hyll a pheipen ffliw ar un talcen.



4.11 Mae The Sextons yn dyddio'n ôl i oddeutu'r 1880au; mae'n dŷ ar wahân gyda'i dir ei hun ar gornel y Stryd Fawr ac Allt yr Ysgol ac mae'n dynodi'r newid o'r Stryd Fawr sy'n llawn adeiladau i'r ardal led wledig o'r 18fed/19eg ganrif o amgylch yr Eglwys. Cafodd ei ehangu yn gynnar yn ei oes - mae i'r rhan wreiddiol du blaen cymesur gyda ffenestr lintel hanner cylch uwchben y drws. Ffenestri dalennog corniog yw'r ffenestri gyda siliau tywodfaen a bwâu brics uwchben. Mae'r wal derfyn isel rhyngddo ag Allt yr Ysgol wedi'i chodi o frics a dorrwyd â gwifrau yn dyddio o ganol yr 20fed ganrif; mae'r un ar y cornel gyda'r Stryd Fawr sy'n agor ar led o frics llawer hŷn - efallai i'w llinell gael ei newid flynyddoedd lawer yn ôl ond mae'n dal i gynnwys y blwch llythyrau Fictoraidd a nodir ar y ddalen Arolwg Ordnans gynnar (gweler ffigur 3).





4.12 Mae Rhifau 1 i 8 Diamond Cottages yn dyddio o oddeutu 1880. Fe'u codwyd o losg-frics coch/oren lleol meddal yn y bondin Seisnig wal gardd; mae i'r agoriadau fwâu brics fflat - gyda chromlin fewnol grom - o frics wedi'u "rhwbio" gydag uniadau pwti calch tenau. Mae gwahaniaethau'n awgrymu iddynt gael eu codi fesul cam. Dim ond Rhif 6 sydd â 4 o'r ffenestri dalennog cwarelog

heb gyrn gwreiddiol, wedi'u gosod yn ôl hanner bricsen oddi ar wyneb y wal a'r blychau pwysau wedi'u cuddio mewn ciliau wedi'u rabedu. Mae'n ymddangos fod enw'r bythynnod yn deillio o'r patrwm gwaith brics diemwntau ar du blaen Rhifau 6 a 7. Mae gan y tai erddi bach o'u blaen ac mae'r toiledau tu allan gwreiddiol yn dal i'w gweld mewn rhai o'r gerddi cefn. Ar y wal frics isel o'u blaen ceir y cerrig copa dafad ac oen melyn trawiadol o dywodfaen a welir mewn rhannau eraill o'r ardal gadwraeth. Mae'r gerddi ffrynt wedi'u gwahanu gan mwyaf gan wrychoedd sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n cael eu torri'n isel, ac mae hynny mewn cyferbyniad cryf ag ymddangosiad tra threfol y rhes dai gyferbyn.





4.13 Fila fach o'r cyfnod Sioraidd hwyr, oddeutu 1830, yw Yew Tree Villa, neu The Yews fel yr oedd cyn hynny - gydag estyniadau o'r 20fed ganrif - wedi'i gosod y tu ôl i goed yw aeddfed a wal dywodfaen sydd â cherrig copa enfawr, afreolaidd, o dywodfaen, clwyd o haearn gyr a cholofnau carreg i'r glwyd. Mae'r tu blaen yn gymesur, wedi'i rendro a'i beintio ac mae ffenestr lintel hanner cylch uwchben y drws canolog. Mae'r ffenestri'n rhai traddodiadol dalennog, a sawl cwarel ynddynt, gyda siliau carreg.

4.14 Mae'r rhes o fythynnod sy'n ymestyn ar hyd y Stryd Fawr o Avondale i Yew Tree House ar y cornel yn dyddio o ddiwedd yr 18fed ganrif i ddechrau'r 19eg ganrif. Mae Avondale, Lyndale a Kiln Cottage yn creu grŵp o dri bwthyn, sy'n unffurf o ran eu cynllun a'u gwedd. Mae eu mynedfeydd yn agor ar eu hunion i'r stryd, nodwedd bwysig mewn bythynnod a chymunedau hŷn lle nad oedd rhwystr yn gwahanu'r cyhoeddus oddi wrth y preifat i'r dosbarth gweithiol. Nid oes fawr o fanylion gwreiddiol i'w gweld ar wahân i'r toeau llechi a'r simneiau brics a'r siliau ffenestri tywodfaen. Nid yw'r gro chwipio a'r llin-gwrs sment a'r architraf ffenestri yn wreiddiol.

4.15 Mae Royal Oak Cottage yn is o ran ei uchder na'r adeiladau o'i gwmpas. Mae wedi'i rendro a'i wyngalchu ac iddo bortsh agored Fictoraidd deniadol gyda thopwaith a braced sy'n ei wneud yn adeilad trawiadol yn y stryd. Fe'i defnyddiwyd fel tŷ tafarn rhwng canol a diwedd y 19eg ganrif, a'r landlord olaf oedd Tom Martin yn 1932.

4.16 Nid oes fawr o fanylder ar du blaen Kimberley Cottages ar wahân i'r linteli a'r siliau ffenestri tywodfaen. Mae Rhifau 1 a 3 wedi'u hadeiladu o frics coch, tra mae Rhifau 4 a 5 wedi cael eu gwyngalchu. Mae iddynt doeau llechi gyda theils coch ar y grib, ac mae'r amrywiaeth uchder rhyngddynt yn ychwanegu at amrywiaeth y strydwedd.





4.17 Mae uchder a phensaernïaeth The Old Shop, sydd hefyd yn cael ei galw'n Swallowdale, yn awgrymu mai Capel Wesleyaidd Pinfold a godwyd yn 1843 ydoedd yn wreiddiol efallai. Dyma'r unig adeilad tri llawr yn y stryd ac mae'n bosibl iddo gael ei droi'n adeilad masnachol tua diwedd y 19eg ganrif neu ddechrau'r 20fed gan fod ynddo ffenestr siop fawr â sawl cwarel ar y llawr isaf. Mae gwaith carreg trawiadol o dywodfaen i'w weld ar y tu blaen, yn cynnwys pediment, llin-gwrs, pennau ffenestri a phlinth. Mae dwy ffenestr ar yr ail lawr a ffenestr fach ar y trydydd llawr.

4.18 Mae Rhifau 1, 2 a 3 Trem yr Eglwys wedi'u gosod yn ôl ychydig y tu ôl i wal frics isel wyngalchog ac nid oes fawr o fanylder ar y tu blaen ond mae iddynt gyrn simnai mawr gyda photiau sbigog sgwâr melyn trawiadol. Mae Rhifau 1 a 2 yn rhannu portsh modern gyda tho llechi un codiad a drysau modern.



4.19 Mae rhan o Yew Tree House yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol fel uned gwerthu bwyd cario allan - ac o'r herwydd mae tair dwythell echdynnu fetel fawr lachar wedi'u lleoli mewn man amlwg yn agos at yr eglwys sy'n adeilad Rhestredig Gradd I.





## Yr Eglwys a'r Grîn - Gresffordd yn y 18fed a'r 19eg ganrif

4.20 Yr hyn sy'n nodweddu'r ardal hon yw fod mwy o le rhwng yr adeiladau. Yng nghanol yr ardal saif Eglwys Blwyf yr Holl Saint gyda'i mynwent helaeth ac yma ac acw o'i hamgylch ceir adeiladau sy'n gysylltiedig â'r eglwys, sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, megis Y Ficerdy (Cedar House erbyn hyn), yr Elusendai a'r Ysgol, Green Farm a The Griffin Inn.





4.21 Saif Eglwys Blwyf yr Holl Saint wrth galon craidd hanesyddol pentref Gresffordd. Mae'n tra-arglwyddiaethu ar yr Ardal Gadwraeth, a hi yw'r prif ffocws y mae'r grwpiau eraill wedi'u grwpio o'i gwmpas. Mae'r fynwent furiog gyda'i rheiliau trawiadol a cholofnau'r clwydi yn rhan annatod o'i gosodiad gan greu ymdeimlad cryf o amgáu ac maent wedi'u rhestru ar sail eu gwerth eu hunain. Cafodd yr Eglwys ei hailadeiladu'n gyfan gwbl bron yn y 15fed ganrif yn yr arddull sythlin o Dywodfaen Cefn er bod tystiolaeth o waith o'r 13eg a'r 14eg ganrif yn dal i oroesi.




4.22 Mae'r Eglwys yn glasurol ei ffurf gyda chorff eiliog, cangell a thŵr gorllewinol. Mae llin-gwrs gyda cherfiadau o flodau, wynebau dynol ac anifeiliaid ar y bylchfuriau. Mae mowldin capan ar y ffenestri sy'n gorffen mewn pennau neu anifeiliaid cerfiedig ac mae creaduriaid grotesg neu fwncïod yn dal peipiau'r landeri. Mae gwaelod y tŵr yn dyddio o'r 14eg ganrif ac mae wedi'i wahanu oddi wrth y gwaith mwy diweddar gan fand o bedairdalennau. Mae parau o agoriadau clychau a threswaith arnynt a pharapet panelog â phinaclau croced am yn ail â cherfluniau. Efallai mai delweddau o'r Marchogion Temlaidd neu'r Deuddeg Apostol yw'r wyth ffigwr o amgylch y copa. Mae'r to panelog nenbren crwm yn do o safon uchel gydag angylion cerfiedig. Mae'n adeilad gogoneddus yn wir, ac mae'r henebion arbennig ynddo, y tu mewn a'r tu allan, yn ychwanegu at ei harddwch.

4.23 Yn y fynwent saif gwigfa o goed yw hynod aeddfed. Dywedir bod yr un wrth glwyd y de-ddwyrain dros 1600 mlwydd oed. Mae'r fynwent yn cynnwys 16 o feddau Rhestredig o'r 18fed a'r 19eg ganrif, wedi'u hamgáu gan reiliau haearn.

4.24 Tŷ mawr wedi'i godi rhwng 1844 a 1851 i T. F. Bennett, masnachwr o Lerpwl, oedd yr Yew Tree Inn yn wreiddiol. Fe'i rhannwyd yn fythynnod yn yr 1850'au, a daeth un ohonynt i gael ei adnabod fel Jackson's Beerhouse. Mae i'r adeilad do lechi gyda theils coch ar y grib, talcenni mawr gyda thopwaith addurnol, a waliau wedi'u



Ffigur 6 Yr Eglwys a'r Grîn




*Yr Arolwg Ordnans (mapio) © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100023429. 2007*

rendro a'u peintio a chonglfeini wedi'u hamlygu. Mae arno 2 set o simneiau brics coch tal gyda chyrn wedi'u gosod yn groeslinol mewn setiau o bedwar a photiau sbigog sgwâr melyn. Mae'r gwrychoedd ar y tu blaen yn ychwanegu cymeriad ac yn meddalu'r strydwedd. I'r cefn mae maes parcio mawr ac wyneb tarmac arno ac estyniadau to fflat.



4.25 Mae Llwyn Eglwys yn fila o ganol y 19eg ganrif yn sefyll ar ei thir ei hun gyda choed sbesimen aeddfed i'r dwyrain o Eglwys y Plwyf y tu ôl i wal derfyn uchel o dywodfaen. Ar un adeg câi ei galw 'The Great House' ac roedd yn eiddo i Stad Trevalyn. Roedd ei lleoliad yn bwysig er mwyn i'r teulu Trevor gael gwybod beth oedd hynt a hanes pawb yn y pentref a'r eglwys. Mae'r enw 'Llwyn Eglwys' yn awgrymu i'r tŷ gael ei godi ar ddarn bach o goetir neu berllan efallai a oedd yn perthyn i'r eglwys. Mae'r tŷ wedi cael ei ailwampio a'i ehangu. Mae iddo bortsh deniadol gyda phileri a bracedi, a ffenestri bach y naill ochr a'r llall i'r drws gyda threswaith addurnol o'r un patrwm ag a geir yn Marford. Wedi'i osod yn y wal derfyn mae drws planc pren stydennog gyda bwa Gothig, eto yn



arddull Marford - yn ymgorffori'r hyn sydd mwy na thebyg yn garreg gopa wedi'i hailddefnyddio - a pharapet uwchben, sy'n creu mynedfa drawiadol.



4.26 Yn wreiddiol, coetsiws Llwyn Eglwys oedd Sweet Briar Cottage, sy'n sefyll y tu ôl i wal dywodfaen uchel ar ongl sgwâr i'r stryd. Yn y talcen sy'n wynebu'r stryd mae ffenestr ddalennog Fictoraidd fawr gydag is-sil o deils coch a brics uwchben.



4.27 Tŷ mawr ar wahân, o ran gynnar y 19eg ganrif, yw Glasfryn, wedi'i guddio'n dda o'r golwg gan wal derfyn uchel o dywodfaen ac amryw o goed aeddfed ar safle eang. Mae colofnau clwydi crand ar y fynedfa i'r dreif. Fe'i codwyd i Ann Hayman, athrawes i ferch y Frenhines Caroline, y Dywysoges Charlotte, a thyst yn 'nhreial' ysgaru drwg-enwog y Frenhines yn y Senedd yn 1820. Roedd yn berson pwysig yn y pentref, a bu farw yn 1847 yn 95 oed.



4.28 Wrth ymyl y fynedfa i Glasfryn, mae llwybr troed cyhoeddus yn arwain drwy'r coed i hen Orsaf y rheilffordd, sydd wedi cael ei haddasu

erbyn hyn at ddefnydd preswyl. Mae llwybr cyffiniol yn gwyro tua'r chwith - gan redeg y tu ôl i Stad Green Farm - ac yn arwain i gae gwastad lle'r arferai ffeiriau'r pentref gael eu cynnal. Mae cymeriad hanesyddol a gwledig y llwybr



wrth ochr Glasfryn wedi cael ei danseilio i raddau gan yr ailbwyntio amhriodol ar y wal dywodfaen, lle cafodd wal o frics coch gyda lefelau grisiog a phileri brics a ffensio rhyngddynt ei chodi fel rhan o ddatblygiad preswyl Church Green. Dyma'r unig le yn yr Ardal Gadwraeth lle mae modd clywed y sŵn o ffordd osgoi'r A483, gan darfu ar awyrgylch sydd fel arall yn heddychlon.



4.29 I'r gogledd o'r eglwys, codwyd Achill, Church House a Strode House yn 1725 gyda chymynrodd gan Margaret Strode fel elusendai ac ysgol elusennol i dri bachgen tlawd a thair merch dlawd. Erbyn hyn maent yn dri thŷ rhestredig Gradd II ar wahân, gyda'r ddau ar y naill ben yn dai preifat tra mae'r rhan ganol - sy'n cynnwys estyniad ysgoldy a godwyd yn 1838 yn sgil sefydlu'r Gymdeithas Genedlaethol yn 1811 - yn cael ei defnyddio fel ystafelloedd cwrdd gan yr eglwys. Mae Achill a Church House wedi'u rendro ond yn Strode House gwelir llosg-frics coch/oren lleol meddal bondin Fflemaidd gyda bwâu brics sengl wedi'u peintio uwchlaw ffenestri'r llawr daear, cornis bondo dant ci ymwthiol a chasmentau haearn gyda ffenestri plwm cyfwyneb mewn fframiau pren. Mae iddo bortsh brics talcennog gyda cherrig nadd ac agoriad brics bwaog.



Rhwng to'r portsh a'r ffenestr uwchben mewn plac carreg ac arysgrif Lladin arno, na ellir ond darllen rhan ohono erbyn hyn. Mae arwyddion yn Achill iddo gael ei ailgodi yn rhannol; cafodd ei helaethu tua'r chwith, mae iddo rendrad modern wedi'i beintio ond gwelir arno o hyd ail blac carreg ac arysgrif Lladin arno. Mae Church House hefyd wedi'i rendro ond mae'r rendrad hwnnw'n hŷn a llinellau wedi'u marcio ynddo fel ei fod yn edrych fel gwaith cerrig nadd.



4.30 Mae Green Farm yn cymryd ei henw oddi wrth grîn y pentref gerllaw. Mae'n adeilad deniadol iawn, wedi'i rendro, a godwyd yn 1911 yn yr arddull Celfyddyd a Chrefft. Enillodd wobr fel y ffermdy gorau yng Nghymru yn 1921. Disodlodd yr adeilad ffermdy cynharach o'r 18fed ganrif a godwyd i Thomas Newns, ariannwr o Lundain a ddaeth yn ffermwr bonedd i Stad Trevalyn. Roedd y fferm yn safle pwysig gan ei bod yn rheoli dros draean y tir yn y pentref ac o'i amgylch. Mae i'r tŷ o'r 1920'au do llechi serth gyda dwy ffenestr ddormer dalcennog a tho llithren yn y cefn, llingyrsiau rhimyn mewn rendrad yn diffinio lloriau'r adeilad, a ffenestri plwm casment pren gwreiddiol. Mae'r wal derfyn dywodfaen o'i flaen gyda rheiliau haearn uwchben yn arbennig o ddeniadol, gan ychwanegu at osodiad yr adeilad.






4.31 Erbyn hyn buarth a thai allan Green Farm yw safle Church Green, datblygiad ffordd bengaead modern o 9 tŷ ar wahân. Mae'r un wrth y fynedfa ar ôl troed yr ysgubor wreiddiol ac fe'i codwyd fel pe bai'r ysgubor wedi cael ei haddasu. Y bwriad gwreiddiol oedd addasu'r ysgubor ond nid oedd yr adeilad yn ddigon





sefydlog felly bu rhaid ei ddymchwel. O fewn y datblygiad mae geudy crwn rhestredig o ddechrau'r 19eg ganrif, a oedd yn perthyn i'r ffermdy gwreiddiol. Mae ei arddull gothig del yn adlewyrchu'r cysylltiadau hanesyddol cynharach â Stad Trevalyn yn Marford. Codwyd y geudy o frics gyda tho llechi conigol, drysau hytraws ac agoriad bach gyda phen pigfain a barrau gwydro croestoriadol Gothig o haearn bwrw. Yn anffodus, mae'r adeilad wedi cael ei ailbwyntio mewn morter sment caled ac mae'r erydu anochel at y brics meddal yn amlwg yn barod. Mae wal frics y tu mewn yn rhannu ochr y tŷ o'r geudy oddi wrth ochr y buarth - diben hynny oedd darparu ar wahân ar gyfer y ffermwr a'i weithwyr. Yn wreiddiol roedd y geudy wedi'i osod yn y wal, a oedd yn gwahanu gardd y Ffermdy a'r buarth. Mae'r cyd-destun a'r berthynas hon wedi cael eu difodi'n llwyr drwy godi'r heol bengaead lydan drwy'r gofod. Yn Church Green, mae amlygrwydd y tai, y diffyg tirweddu meddal a'r môr o darmac, palmentydd trefol a chyrbiau yn creu datblygiad trefol, hynod galed, sy'n amhriodol i gymeriad lled-wledig y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth.







4.32 Mae safle Min-y-Dyffryn yn adlewyrchu'i leoliad ar ymyl dyffryn Alun. Caiff y safle ei guddio o'r golwg y tu ôl i wal dywodfaen a gwrych celyn aeddfed sy'n rhedeg gydag ymyl y ffordd, ynghyd â'r coed aeddfed niferus ar y safle.

4.33 Wrth fynd i mewn i'r Ardal Gadwraeth o Griffin Hill, mae Eglwys y Plwyf i'w gweld o'r safbwynt gorau. Mae'r llain gwyrdd o flaen yr eglwys yn elfen annatod o'i gosodiad. Dyma sy'n weddill o ddarn llawer mwy o dir a gâi ei ddefnyddio gan y bonedd yn y 18fed ganrif i gerdded ac ymarfer eu ceffylau. Cafodd rhan o'r 'Grîn' ei ymgorffori yn y fynwent pan gafodd ei ehangu yn 1831. Mae cyrbiau tywodfaen wedi'u gweithio yn amlwg yn yr ardal hon.

4.34 Mae gweddillion wal dywodfaen gyda cholofnau clwydi amlwg yn arwain at Cedar House a'r stablau. Dyma'r Ficerdy yn wreiddiol, tan yr 1990'au pan godwyd un newydd ar y tir. Mae Cedar House yn adeilad Rhestredig Gradd II. Croes wedi'i haddasu yw'r cynllun, yn yr arddull pictiwrésg gyda dylanwadau Gothig Tuduraidd. Adeilad deulawr o frics ydyw gyda rhywfaint o waith carreg tywodfaen, to llechi a phâr o simneiau





brics tal sydd hefyd â rhywfaint o waith carreg ynddynt. Mae'r ffenestri drwyddynt draw yn barau dalennog aml-gwarel gyda chonglfeini a linteli.

4.35 Codwyd y stablau, sydd hefyd yn Radd II Rhestredig, fel rhan o'r Ficerdy yn 1850. Cawsant eu newid a'u hadfer tua diwedd yr 20fed ganrif. Mae eu dyluniad yn adlewyrchu'r prif adeilad, er bod y driniaeth yn symlach. Mae i'r tu blaen cymesur fae canolog gydag agoriad bwaog Tuduraidd i gerbydau.

4.36  Mae'r ficerdy a godwyd tua diwedd yr 20fed ganrif yn sicr wedi'i ddylunio'n dda yn ei hanfod ond nid yw'n gweddu i'r rhan hon o'r ardal gadwraeth ar y cyfan.  Nid yw'n cystadlu â'r hen ficerdy o ran ansawdd a dyluniad - ac ni ddylai - ond efallai ei fod yn rhy fawr mewn lleoliad lle byddid yn disgwyl adeilad llawer llai megis porthordy.

4.37  Yn hanesyddol mae cysylltiad rhwng y Griffin Inn a'r Eglwys, a saif ar dir a oedd yn eiddo i'r eglwys tan 1924. Gellir gweld cerfiad o riffwn, yn dyddio o 1350, o dan sedd y ficer yn yr eglwys.  Efallai fod y ddelwedd wedi cael ei hysbrydoli gan storïau o'r croesgadau lle dywedid bod creaduriaid lledrithiol yn bodoli.  Mae lleoliad y dafarn, yn agos at yr eglwys, yn nodweddiadol o bentref canoloesol, pryd y byddai'n cael ei defnyddio i ddarparu llety a lluniaeth i bererinion a chlerigwyr a ddeuai i ymweld.



4.38  Ar un adeg, yr adeilad bach un llawr, wedi'i chwipio â gro, sy'n wynebu'r ffordd oedd y Tŷ Elor.  Câi ei ddefnyddio i storio elor eglwys y plwyf ac erbyn hyn fe'i defnyddir fel sied storio.  Mae iddo do llechi gyda theils coch ar y grib, bondo dant ci ymwthiol ac agoriad gyda drysau pren dwbl a bwa uwchben.



4.39  Mae Spring Cottage, Y Bwthyn a Lydstep ar Lôn y Clapwyr yn ffurfio grŵp o dri adeilad i'r gogledd-orllewin o'r eglwys.  Fe'u codwyd yn gynnar yn y 19eg ganrif ac ailwampiwyd nhw'n ddiweddarach ac maent wedi'u rendro mewn arddull modern.  Mae ffenestri a rendrad amhriodol yn Lydstep a'r Bwthyn.  Cyfyng yw'r lle o flaen y bythynnod, sydd wedi'u lleoli'n agos at y ffordd i barhau â'r cymeriad a welir ledled yr Ardal Gadwraeth.

4.40  Mae'r ffordd ar hyd yr ochr hon o'r eglwys yn un wledig, gyda chaeau agored tua'r gorllewin, ac ymylon glaswellt gyda chyrbiau tywodfaen. Mae'r caeau agored yn caniatáu golygfeydd gwych tua'r gorllewin at fynydd Escluscham.



4.41  Ar gyffordd Allt yr Ysgol a Lôn y Clapwyr saif adeiladau Rhestredig gwreiddiol Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, All Saints.  Mae'n ysgol bentref Fictoraidd nodweddiadol sy'n cynnwys Ysgoldy ynghyd â thŷ athro ynghlwm a waliau terfyn a cholofnau clwydi.  Fe'i codwyd rhwng 1873 ac 1874, fel Ysgol Genedlaethol mae'n siŵr gan Eglwys Loegr.  Mae yn yr arddull Diwygio Gothig gyda waliau o waith maen rhwbel tywodfaen wedi'i sgwario, ar ffurf cyrsiau, gyda gwaith carreg nadd yma ac acw, to llechi a theils coch ar y grib a simneiau carreg.  Y rhan sy'n wynebu Lôn y Clapwyr yw tŷ'r ysgol a thŷ preifat ydyw erbyn hyn.  Mae iddo du blaen cymesur gyda phortsh talcennog canolog a mynedfa fwaog, a phâr o ffenestri lansed â phennau corniog ar y naill ochr a'r llall.  Ar y llawr uchaf mae ffenestr ddormer fach drionglog gyda gwydr siâp meillionen, ac i'r naill ochr a'r llall ohoni cyfyd ffenestr ddormer dalcennog uchel, yn torri drwy'r bondo, sy'n cynnwys treswaith.



4.42  Darparwyd lle ychwanegol yn gynnar yn yr 20fed ganrif drwy godi'r ysgol fawr i'r de, wedi'i hadeiladu o frics Rhiwabon.  Cynllun Fictoraidd hwyr sydd i'r rhan hon o'r ysgol.  Nid oes estyll tywydd ar ymylon y talcenni ymwthiol sydd wedi'u creu o dri chwrs bargodol o frics. Mae'r ffenestri mawr ar y llawr isaf o ddyluniad croesffurf, gyda mwliynau a siliau tywodfaen yn ychwanegu diddordeb.  Mae'r awyrellau ar y talcenni â mowldin capan teracota a stopiau deiliog.  Mae'r wal derfyn gyfoes o frics coch, gyda cherrig copa tywodfaen, rheiliau coch uwchben a cholofnau clwydi sylweddol, yn rhan annatod o osodiad yr ysgol.  Erbyn hyn mae adeiladau to fflat sylweddol yn cysylltu'r ddwy ran ac er nad ydynt yn ddelfrydol nid ydynt yn ddylanwad rhy negyddol ar yr Ardal Gadwraeth.  Fodd bynnag, mae'r estyniad to fflat a'r ramp wrth y fynedfa ar Lôn y Clapwyr yn ddyluniad annoeth, yn amharu ar y prif adeilad ac yn tanseilio'r golygfeydd o'r Eglwys a'r Ysgol Gynradd yn ddifrifol ar y ffordd ddynesu bwysig hon i mewn i'r ardal gadwraeth.





# 5 Crynodeb o'r Ffactorau Negyddol

5.1 Nodwyd sawl ffactor sy'n amharu ar ansawdd gweledol yr ardal. Maent yn cynnwys:

## Datblygiadau Newydd

5.2 Datblygiadau tai modern ar ffyrdd pengaead, sy'n faestrefol iawn o ran cymeriad ac ymddangosiad; nid ydynt yn adlewyrchu cynllun llinol y pentref, sy'n dibynnu ar adeiladau'n wynebu'r stryd. Mae'n bosibl ymgorffori datblygiadau newydd mewn anheddiad hanesyddol ond rhaid iddynt barchu ac adlewyrchu patrwm gosodiad y pentref fel y mae, yr hierarchaeth, graddfa, arddull, lled talcenni, codiad toeau, uchder o'r llawr i'r bondo ac uchder cribau toeau, defnyddiau adeiladu a'r driniaeth ar derfynau ac arwynebau. Yn aml caiff llawer o sylw ei roi i fanylion yr adeiladau eu hunain, a hynny'n effeithiol iawn fel yn achos Church Green, ond mae'r diffyg tirweddu ynghyd â'r gofynion priffyrdd am strydoedd a phalmentydd llydan gyda chyrbiau uchel yn tanseilio'r canlyniad.

5.3 Mae codi tai mawr modern crand yng ngerddi filâu a thai hanesyddol ar eu pen eu hunain nid yn unig yn dibrisio gosodiad tai o'r fath ond mae hefyd yn effeithio ar hierarchaeth lle a statws pensaernïol yn yr ardal gadwraeth. Mae'r lle rhwng adeiladau yr un mor bwysig â'r adeiladau eu hunain.



## Colli Nodweddion Gwreiddiol

5.4 Mae tynnu ffenestri a drysau pren gwreiddiol neu draddodiadol eu harddull a'u newid am rai pren newydd nad ydynt yn draddodiadol eu gwneuthuriad neu am rai PVCu yn prysur erydu cymeriad yr ardal.

## Atgyweirio Nodweddion Ffiniau'n Amhriodol neu eu Newid am Rai Amhriodol

5.5 Mae tynnu neu ailadeiladu waliau terfyn gwreiddiol neu draddodiadol a gwrychoedd a rhoi rhai modern o frics neu ffensys modern eu harddull yn eu llai wedi effeithio'n andwyol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Yn aml mae waliau cerrig gwreiddiol wedi cael eu hailadeiladu heb ddeall sut mae gosod cyrsiau a sadio'r cerrig yn briodol a chan ddefnyddio morter sment pinc caled. Er enghraifft, mae wal derfyn Llwyn Eglwys wedi cael ei hatgyweirio gan ddefnyddio morter sment cryf, sy'n amharu ar ei chymeriad ac yn gwneud difrod i'r gwaith carreg.







# Rhan 2
# Y Cynllun Rheoli

# 6.1 Y Stryd Fawr (Gresffordd y 19eg ganrif)

| CYNIGION CADW A GWELLA | |
|---|---|
| Amddiffyn a gwella cyffiniau'r llyn | Mae trin a dylunio arwynebau ac ymylon palmentydd ac offer stryd o amgylch y llyn mewn modd sensitif yn dyngedfennol er mwyn cadw amgylchedd hanesyddol o safon uchel. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i hyn mewn unrhyw gynigion sy'n effeithio ar yr ardal hon. |
| Adfer nodweddion a gollwyd - Lake Terrace, y Stryd Fawr | Mae manylion pensaernïol traddodiadol a defnyddiau lleol yn bwysig o ran diddordeb a gwerth pensaernïol a dylent gael eu cadw, eu hatgyweirio neu'u hadfer lle maent wedi cael eu colli. |
| Golygfeydd o'r Llyn - yr Ochr Orllewinol | Gellid plannu rhywogaethau brodorol o goed wrth ymyl y llyn i feddalu a sgrinio'r olygfa. |
| Manylion Ffiniau | Fel nodweddion arbennig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth, byddir yn gwrthsefyll dymchwel y rhain yn llwyr. Anogir defnyddio dulliau adeiladu a defnyddiau traddodiadol, yn cynnwys defnyddio morter calch (dim sment) ym mhob cynllun atgyweirio ac adfer. |
| Strydoedd Blêr | Cynhelir archwiliad o arwyddion ffordd, marciau ac offer stryd tua diwedd 2009/ dechrau 2010 i asesu'r nifer o elfennau dianghenraid yn ogystal â'r rhai sy'n niweidiol i osodiad adeiladau pwysig ac i'r strydwedd yn gyffredinol. |
| Archaeoleg | Efallai y bydd angen lefelau amrywiol o liniaru archeolegol mewn ymateb i gynigion datblygu yn y craidd hanesyddol. Anogir ymgynghori buan ag Ymddiriedolaeth Archaeoleg Clwyd-Powys ynglŷn ag unrhyw annedd neu estyniad newydd arfaethedig i atal oedi ar y cam cyflwyno cais. |
| Datblygiadau Newydd | Rhaid i ddatblygu barchu graddfa, dyluniad, cymesuredd a defnyddiau'r bensaernïaeth gyfagos er mwyn cryfhau cydlyniad y stryd. Mae'n hanfodol fod graddfa ac amrywiaeth y bensaernïaeth gyfagos yn cael eu parchu ac y defnyddir dylunio llawn dychymyg, o ansawdd uchel, i atgyfnerthu cydlyniad y stryd ac i sicrhau parhad yng ngraddfa, rhythm a chyfoeth manylion pensaernïaeth y strydwedd bresennol. |
| Traffig ac Arwyddion | Dylai gwaith ffordd gael ei ddylunio yn unol â'r canllawiau a nodir yn Adran 7.0 o'r ddogfen hon. |
| Gwifrau Uwchben | Ar y cyd â'r cwmnïau cyfleustodau perthnasol, byddir yn ymchwilio i'r potensial i adleoli'r gwifrau uwchben ar hyd y Stryd Fawr dan ddaear. |

# 6.2 Yr Eglwys a'r Grîn (Gresffordd y 18fed a'r 19eg ganrif)

| CYNIGION CADW A GWELLA | |
|---|---|
| Golygfeydd Pwysig | Mae golygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, allan ohoni ac oddi mewn iddi, yn arbennig y golygfeydd o'r Eglwys, yn hollbwysig i'r ymdeimlad arbennig o le. Bydd eu hamddiffyn a'u gwella yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar unrhyw ddatblygiad arfaethedig. |
| Gwella'r 'Grîn' | Mae gweithfeydd gwella ffyrdd yn cynnig cyfle i wella tir cyhoeddus, yn arbennig newid bolardiau traffig a golau ynddynt am rai sy'n fwy cydnaws â'r amgylchedd gwledig safonol. Gellid hefyd ystyried ehangu grîn y pentref gan wneud y ffordd yn gulach - byddai hynny'n fodd i ostegu'r traffig. |
| Ymylon glaswellt | Dylid cadw ymylon glaswellt a chyrbiau tywodfaen lle maent yn bodoli. |
| Gwella'r meysydd parcio y tu cefn i dafarnau'r Griffin ac Yew Tree | Byddai defnyddio tirweddu a thriniaeth ffiniau a defnyddiau wyneb priodol yn cael ei annog. |
| Strydoedd Blêr | Cynhelir archwiliad o arwyddion ffordd, marciau ac offer stryd tua diwedd 2009/ dechrau 2010 i asesu'r nifer o elfennau dianghenraid yn ogystal â'r rhai sy'n niweidiol i osodiad adeiladau pwysig ac i'r strydwedd yn gyffredinol. |
| Manylion Ffiniau | Fel nodweddion arbennig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth, byddir yn gwrthsefyll dymchwel y rhain yn llwyr. Anogir defnyddio dulliau adeiladu a defnyddiau traddodiadol, yn cynnwys defnyddio morter calch (dim sment) ym mhob cynllun atgyweirio ac adfer. |
| Awgrymu Ehangu'r Ffiniau | Byddir yn ymchwilio i'r potensial i ehangu Ffiniau'r Ardal Gadwraeth i gynnwys y darn o dir sy'n cael ei adnabod fel Hen Grîn y Pentref. |
| Archaeoleg | Efallai y bydd angen lefelau amrywiol o liniaru archeolegol mewn ymateb i gynigion datblygu yn y craidd hanesyddol. Anogir ymgynghori buan ag Ymddiriedolaeth Archaeoleg Clwyd-Powys ynglŷn ag unrhyw annedd neu estyniad newydd arfaethedig i atal oedi ar y cam cyflwyno cais. |
| Datblygiadau Newydd | Rhaid i ddatblygu barchu graddfa, dyluniad, cymesuredd a defnyddiau'r bensaernïaeth gyfagos er mwyn cryfhau cydlyniad y stryd. Mae'n hanfodol fod graddfa ac amrywiaeth y bensaernïaeth gyfagos yn cael eu parchu ac y defnyddir dylunio llawn dychymyg, o ansawdd uchel, i atgyfnerthu cydlyniad y stryd ac i sicrhau parhad yng ngraddfa, rhythm a chyfoeth manylion pensaernïaeth y strydwedd bresennol. |
| Traffig ac Arwyddion | Dylai gwaith ffordd gael ei ddylunio yn unol â'r canllawiau a nodir yn Adran 7.0 o'r ddogfen hon. |





# 7 Canllawiau Dylunio

7.1 Mae cymeriad yr adeiladau unigol a'r golygon ar hyd y strydoedd, sydd gyda'i gilydd yn creu'r Ardal Gadwraeth, yn deillio o nifer o ffactorau, y mae'r canllawiau dylunio isod yn berthnasol iddynt. O fewn y paramedrau hyn mae lle i arloesi pensaernïol o safon uchel, cyhyd â bod hynny'n gydnaws â'r cymeriad presennol o ran y canlynol:

## Graddfa

7.2 Wrth adfer ac ailddatblygu rhaid parchu'r lled plot traddodiadol ac osgoi ffasadau enfawr ailadroddus, heb ddim i dorri arnynt, sy'n nodweddiadol o lawer o ddylunio modern.

## Cymesuredd



7.3 Roedd arddulliau adeiladu hŷn yn dilyn systemau cymesuredd traddodiadol. Yn y rhan fwyaf o adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth, mae'r berthynas rhwng ffenestri, drysau, uchder lloriau a'r berthynas rhwng solid a gwagle (yr arwynebedd waliau o'i gymharu â'r nifer o agoriadau ffenestri neu ddrysau a'u maint) yn dyngedfennol wrth ddylunio gweddluniau. Dylid efelychu cymesuredd traddodiadol mewn datblygiadau newydd.

## Y Llinell Adeiladu

7.4 Rhaid i ddatblygu ar hyd ffryntiadau gydymffurfio â'r patrwm strydoedd hanesyddol.

## Toeau

7.5 Mae llinell y to bob amser bron yn nodwedd amlwg o adeilad ac mae cadw'r siâp, y codiad, yr ymylon a'r manylion a'r addurniadau bondo gwreiddiol yn hanfodol. Mae uchder a siapiau toeau yn bwysig; mae toeau fflat yn ddieithr i'r traddodiad lleol ac yn annerbyniol yn gyffredinol. Mae cyrn simneiau yn nodweddion pwysig o'r golygon a dylid eu cadw hyd yn oed os nad oes eu hangen mwyach. Lle mae'r defnyddiau toi i gael eu hadnewyddu dylent gael eu newid am rai o'r un lliw, maint a gwedd â'r gwreiddiol. Dylai toeau gael eu toi neu'u hail-doi mewn defnyddiau traddodiadol ar sail tebyg am debyg lle maent yn briodol yn hanesyddol. Os oes angen awyru, dylid cyflawni hynny mewn ffyrdd sydd heb fod yn amlwg. Byddai awyru o dan y bondo yn dderbyniol, ond nid felly awyrellau gweladwy yn y to.



## Waliau Allanol

7.6 Rhaid i unrhyw newidiadau neu waith atgyweirio i waliau allanol barchu'r defnyddiau adeiladu presennol a chyd-fynd â nhw o ran gwedd, ansawdd a lliw. Dylid gwneud pob ymdrech i gadw neu ailddefnyddio gwaith brics neu waith carreg ar



yr wyneb, a rhaid peidio â'u rendro, eu chwipio â gro na'u peintio. Rhaid ailbwyntio â morter sy'n cyd-fynd â'r morter presennol o ran lliw, math a gwedd, ac yn hanesyddol byddai wedi cael ei greu o galch a thywod. Mae morterau sment modern, caled, yn atal lleithder rhag anweddu drwy'r uniadau - yn lle hynny, caiff ei dynnu drwy'r defnydd mwyaf meddal, sef y gwaith maen ei hun, gan wneud drwg i ymddangosiad ac adeiladedd yr adeilad drwy hynny. Rhaid peidio â stripio rendrad gwreiddiol i ddinoethi cerrig rhwbel, brics neu waliau fframwaith coed, nad ydynt wedi'u bwriadu i gael eu dinoethi. Mae rendradau sment caled, modern, yn atal lleithder rhag anweddu, a gall ymgasglu rhwng y wal a'r rendrad gan achosi lleithder mewnol. Lle mae hynny'n briodol, dylai rendradau sment caled gael eu newid am rendrad calch amgen.

## Landeri a Phibellau Dŵr

7.7 Dylai landeri a phibellau dŵr gael eu hatgyweirio os ydynt yn rhai gwreiddiol neu dylid ailosod rhai mewn defnyddiau gwreiddiol. Nid yw landeri plastig yn briodol ar Adeiladau Rhestredig ac adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Nid ydynt yn ddilys yn hanesyddol ac nid ydynt yn cyfoethogi cymeriad adeilad. Gall landeri haearn bwrw bara oes, o'u cynnal a'u cadw, eu hatgyweirio a'u gosod yn iawn.



## Ffenestri

7.8 Mae'r rhain yn nodweddion pwysig a rhaid iddynt fod yn briodol o ran cymesuredd, yn perthnasu'n dda i'w gilydd ac i adeiladau cyfagos a dylent hefyd barchu'r agoriadau sy'n bodoli'n barod. Rhaid i unrhyw waith atgyweirio neu amnewid gyd-fynd bob amser â'r gwreiddiol - fodd bynnag, yr ystyriaeth gyntaf bob amser yw cadw'r unedau sydd yno. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond elfennau adeileddol y ffenestr ond hefyd wydr hanesyddol a'r offer gwreiddiol ar ffenestri. Mae'r dull agor yn neilltuol o bwysig, pa mor bell yn ôl y mae'r ffenestr yn cael ei gosod yn y cil a'r darnau o farrau gwydro. Mae trwch y barrau gwydro a'r mowldin arnynt, maint y cwarelau a'u trefniant yn elfennau hollbwysig wrth benderfynu ar ffenestri priodol i'w gosod yn lle hen rai, sy'n parchu oed adeilad. Mae'n annerbyniol newid ffenestri pren neu haearn am rai uPVC, ni waeth beth yw'r patrwm. Rhaid i bob ffenestr fod â gorffeniad paent traddodiadol yn hytrach nag opsiwn modern lle defnyddir staen i liwio.



## Drysau

7.9 Dylid cadw fframiau drysau, drysau ac offer drysau gwreiddiol lle bynnag mae hynny'n bosibl. Rhaid i rai newydd yn eu lle gyd-fynd â'r gwreiddiol o ran cymesuredd, arddull a defnyddiau a rhaid iddynt fod â gorffeniad paent. Mae manylion fel panelau a ffenestri lintel yn elfennau hanfodol wrth benderfynu ar fathau priodol o ddrysau i'w rhoi yn lle'r gwreiddiol, ac yn parchu oed adeilad. Dylai portshys gael eu dylunio yng nghyd-destun ac arddull bensaernïol yr adeilad drwyddo draw, gan adlewyrchu arddulliau cyfagos priodol. Ni ddylent dra-arglwyddiaethu ar du blaen yr adeilad.



## Nodweddion Addurnol

7.10 Rhaid cadw nodweddion fel mowldin teracota, ffigyrau, arysgrifau, rheiliau, nodweddion goruwchadail a gwaith haearn addurnol ac ati lle bynnag mae hynny'n bosibl, fel nodweddion o gymeriad yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.

## Triniaethau Ffiniau

7.11 Fel nodwedd o gymeriad yr ardal, ni fydd tynnu neu newid waliau terfyn yn cael ystyriaeth ffafriol. Dylid eu hatgyweirio gan ddefnyddio'r un defnyddiau a'r un arddull neu fondin a dylid llenwi bylchau o ran cerrig copa gan ddefnyddio defnyddiau i gyd-fynd â'r cerrig copa presennol. Mae'n annerbyniol defnyddio morter sment caled i ailbwyntio uniadau, gan fod hynny'n peri i dywodfaen yn arbennig ddirywio'n gyflymach.

## Arwynebau

7.12 Dylid osgoi gorddefnyddio gorffeniadau tarmac ansensitif a manteisio ar y cyfle i osod defnyddiau naturiol, traddodiadol, lleol eu tarddiad os yw'n bosibl, sydd â'u lliw, eu gwedd a'u patrwm yn gydnaws â chymeriad yr ardal ac yn sensitif i adeiladau cyfagos.

## Gwaith Ffordd

7.13 Dylai offer stryd dianghenraid neu elfennau nad oes eu hangen mwyach, fel arwyddion, biniau neu bolion, gael eu tynnu fel bod y strydoedd yn edrych yn llai blêr. Rhaid cadw unrhyw nodweddion hanesyddol fel arwyddion stryd a rhaid i unrhyw eitemau newydd fel bolardiau, goleuadau stryd ac arwyddbyst gael eu hintegreiddio'n ofalus yn y strydwedd gan berthnasu'n dda ag adeiladau cyfagos a'r ardal drwyddi draw. Rhaid sicrhau bod cyn lleied â phosibl o arwyddion ffyrdd, a'r rheini mor fach â phosibl, a dim ond lle mae hynny'n angenrheidiol y dylent gael eu goleuo. Dylai'r platiau cefn fod yn llwyd neu'n ddu - rhaid osgoi melyn llachar. Lle mae llinellau ffordd yn hanfodol, rhaid iddynt fod o led cyfyngedig o fewn yr Ardal Gadwraeth.



## Micro Gynhyrchu Ynni

7.14 Er bod defnyddio systemau micro gynhyrchu ynni yn rhywbeth i'w annog, ni fydd hyn yn dderbyniol lle caiff y cyfarpar ei osod ar du blaen adeiladau neu ar brif weddluniau neu weddluniau gweladwy, lle byddent yn cael effaith weledol negyddol ar yr Ardal Gadwraeth neu lle'r effeithir yn andwyol ar adeiledd neu osodiad Adeilad Rhestredig.



# 8 Mesurau Rheoli yn yr Ardal Gadwraeth

## Mesurau Rheoli Arbennig

8.1 Er mwyn amddiffyn yr amgylchedd arbennig, mae mesurau rheoli mwy caeth yn bodoli yn yr Ardal Gadwraeth. Nid yw'r rhain wedi'u bwriadu i lesteirio newid, ond fel cyfrwng rheoli cadarnhaol i ddiogelu cymeriad yr ardal drwyddi draw. Maent yn cynnwys:

- Pwerau rheoli ychwanegol dros dai annedd o ran estyniadau, estyniadau to a newidiadau, cladin, garejys a lleoli soseri lloeren.
- Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer y rhan fwyaf o waith sy'n golygu dymchwel yn gyfan gwbl. Ni fydd caniatâd i ddymchwel yn cael ei roi fel arfer nes ceir gwybodaeth am ffurf yr ailddatblygu.
- Rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd i'r Cyngor cyn gwneud gwaith ar goed.

Gyda phob cynnig datblygu ac wrth arddangos hysbysebion mewn Ardal Gadwraeth, rhaid cymryd mwy o ofal i sicrhau bod cynlluniau'n gwella a chadw cymeriad arbennig yr ardal. Mae'r dyluniad a'r dewis o ddefnyddiau yn arbennig o bwysig yn y cyswllt hwn.

## Adeiladau Rhestredig

8.2 Adeilad Rhestredig yw adeilad sy'n cael ei ystyried yn un o 'ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig', y mae angen amddiffyniad arbennig arno felly. Ar ôl i adeilad gael ei restru, caiff ei amddiffyn o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Rhestru yn amddiffyn yr adeilad cyfan, yn allanol a mewnol, ni waeth beth fo'r rheswm am ei restru, yn ogystal ag unrhyw wrthrych neu adeiledd sydd ynghlwm wrth yr adeilad neu unrhyw wrthrych neu adeiledd o fewn 'cwrtil' yr adeilad, sydd wedi bodoli ers cyn 1af Gorffennaf 1948. Mae hyn i sicrhau bod cymeriad arbennig yr adeilad a'i osodiad yn cael eu hamddiffyn.

8.3 Lle bwriedir gwneud gwaith ar Adeilad Rhestredig, mae bob amser yn syniad da holi Awdurdod Cynllunio'r Cyngor i ganfod a oes angen Caniatâd Adeilad Rhestredig. Mewn unrhyw waith arfaethedig, rhaid rhoi sylw arbennig i'r angen i gadw'r adeilad, ei osodiad a nodweddion arbennig o ddiddordeb.

8.4 Wrth ystyried unrhyw waith ar Adeilad Rhestredig, y brif egwyddor o reidrwydd fydd cadw'r holl nodweddion gwreiddiol ac adeiledd yr adeilad lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddymchwel adeilad rhestredig neu ar gyfer newidiadau a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeilad, ei gyfanrwydd neu'i ddiddordeb arbennig. Gallai hyn gynnwys newid ffenestri a drysau, newid y defnyddiau toi, peintio gwaith brics, symud neu dynnu waliau mewnol neu waith plastr, lleoedd tân, estyll lloriau neu risiau. Efallai na fydd angen caniatâd ar gyfer gwaith atgyweirio tebyg am debyg ond mae wastad yn syniad da holi cyn dechrau ar unrhyw waith gan fod gwneud gwaith heb y caniatâd angenrheidiol yn dramgwydd troseddol sy'n gallu golygu cosbau sylweddol i'r rhai dan sylw yn dilyn erlyniad llwyddiannus.

## Adeiladau Masnachol

8.5 Nid oes gan eiddo mewn defnydd masnachol Hawliau Datblygu a Ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Felly, yr unig waith y ceir ei wneud heb Ganiatâd Cynllunio yw gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a newidiadau mewnol, ar yr amod nad yw'r adeilad yn Adeilad Rhestredig.





# 9 Ffynonellau Cyllid

9.1 Egwyddor sylfaenol o bob cynllun grant yw na ellir cynnig grant ar ôl i'r gwaith ddechrau. Mae pob grant yn ddewisol a gall y cyfraddau amrywio. Mae ymgynghori buan â darparwyr posibl yn hanfodol.

## Cadw: Henebion Cymru

9.2 Cadw yw'r brif asiantaeth gyhoeddus sy'n cynnig cymorth grant i adeiladau hanesyddol yng Nghymru. Dyma grynodeb o'r cynlluniau grant allweddol:

### ● Grant Adeiladau Hanesyddol

Ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiledd hanesyddol adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol 'eithriadol'. Fel arfer telir grantiau mewn rhandaliadau neu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Mae'r ganran o'r costau atgyweirio cymwys llawn sy'n daladwy drwy gymorth grant yn dibynnu ar y math o adeilad, er enghraifft:

| | |
|---|---|
| Crefyddol | 50% |
| Ymddiriedolaethau ac Elusennau | 40% |
| Domestig/Preifat | 30% |
| Masnachol/Diwydiannol | 30% |
| Cyhoeddus | 30% |

Efallai y bydd yn amod o'r grant fod angen arbenigwr i ddylunio, pennu manyleb a goruchwylio'r gwaith, a bod rhaid caniatáu rhywfaint o fynediad i'r cyhoedd i'r eiddo unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Rhaid i'r perchennog sicrhau hefyd fod yr eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr da a rhaid iddo drefnu a chynnal yswiriant digonol ar gyfer yr eiddo.

### ● Grant Ardaloedd Cadwraeth

Ar gyfer gwaith ar adeiledd neu ymddangosiad allanol adeiladau hanesyddol, sydd yn ychwanegu'n sylweddol at Ardal Gadwraeth. Eto, caiff grantiau eu talu mewn rhandaliadau neu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, yn ôl y cyfraddau isod:

| | |
|---|---|
| Crefyddol | 40% |
| Ymddiriedolaethau ac Elusennau | 30% |
| Domestig/Preifat | 25% |
| Masnachol/Diwydiannol | 25% |
| Cyhoeddus | 25% |

Yn debyg i'r Grant Adeiladau Hanesyddol, efallai y bydd yn amod fod angen arbenigwr i ddylunio, pennu manyleb a goruchwylio'r gwaith. Rhaid i'r perchennog sicrhau hefyd fod yr eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr da a rhaid iddo drefnu a chynnal yswiriant digonol ar gyfer yr eiddo.

# Atodiad 1
# Adeiladau Rhestredig

| Adeilad | Gradd |
|---|---|
| Eglwys Blwyf yr Holl Saint | I |
| Wal y fynwent a cholofnau'r clwydi yn Eglwys yr Holl Saint | II |
| Grŵp o 5 bedd i'r gogledd-orllewin o Eglwys yr Holl Saint | II |
| Grŵp o 6 bedd i'r gorllewin o Eglwys yr Holl Saint | II |
| Grŵp o 3 bedd i'r de-ddwyrain o Eglwys yr Holl Saint | II |
| Pâr o feddau i'r dwyrain o Eglwys yr Holl Saint | II |
| Bedd Ann Williams i'r de o Eglwys yr Holl Saint | II |
| Strode House, Y Grîn | II |
| Church House, Y Grîn | II |
| Achill, Y Grîn | II |
| Cedar House | II |
| Stablau Cedar House | II |
| Geudy Crwn, Green Farm, Y Grîn | II |
| Ysgol Gynradd All Saints, Allt yr Ysgol | II |
| Tŷ'r Ysgol, Lôn y Clapwyr | II |
| Waliau a cholofnau clwydi Ysgol Gynradd All Saints<br>Allt yr Ysgol a Lôn y Clapwyr | II |

# Atodiad 2
# Canllawiau Polisi Cadwraeth

| Y Brif Ddeddfwriaeth | Canllawiau Polisi Cenedlaethol | Polisi Lleol |
|---|---|---|
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Polisi Cynllunio Cymru | Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam (CDLl yn cael ei baratoi 2008/09) |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth | Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol Nodyn 4: Ardaloedd Cadwraeth |
| Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 | Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru | Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol Nodyn 30: Dylunio: Arweiniad i Ddatblygwyr a Phenseiri wrth ddylunio Datblygiadau Preswyl |
| | Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio | |
| | Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg | |

# Atodiad 3
# Rhestr o Dermau Pensaernïol

| | |
|---|---|
| Elusendy | Tŷ wedi'i neilltuo at ddefnydd y tlodion; tloty |
| Celfyddyd a Chrefft | Celfyddyd dylunio addurnol a chrefft |
| Gwaith cerrig nadd | Cerrig wedi'u torri a'u naddu fel bod iddynt wyneb gwastad, a ddefnyddir ar du blaen adeilad |
| Elor | Stand i ddal corff neu arch cyn claddu |
| Cambr | Yn lle llinell neu drawst llorweddol, rhywfaint o grymder neu dro ar i fyny |
| Casment | Ffenestr lle mae'r rhan sy'n agor yn hongian ar golfachau |
| To llithren | To sy'n cysylltu estyniad unllawr wrth ymyl isaf y to ar ongl gwreiddiol gan greu to ar ongl ddeuol |
| Sil | Aelod adeileddol wedi'i greu o un pren llorweddol di-dor sy'n ffurfio rhan isaf fframwaith neu adeiledd cynnal |
| Claeruchdwr | Rhan o wal fewnol sy'n codi uwchlaw'r to cyffiniol gyda ffenestri'n gadael golau i mewn |
| Conigol | Siâp côn |
| Corbel | Darn ymwthiol o bren, carreg neu frics sy'n cynnal adeiledd trosgrog, megis bwa neu falconi |
| Cornis | Silff wedi'i mowldio, yn bargodi ar hyd top adeilad.  Hefyd, mowldin addurnol yn yr ongl rhwng wal a nenfwd |
| Croesffurf | Ar siâp croes |
| Ffenestri Lansed Corniog | Ffenestri pigfain cul un gwydr gyda ymyl addurnol |
| Deintell | Bargodiadau ciwbig bach o dan y llinell doeau |
| Dormer | Ffenestr sy'n codi allan o'r to |
| Bargod/bondo | Y rhan isaf o do ar ongl, sy'n hongian drosodd |
| Ffasad | Tu blaen adeilad |
| Ffenestri lintel | Agoriad gwydrog uwchben drws |
| Topwaith | Darn addurnol i orffen elfen o adeilad, yn cael ei ddefnyddio'n aml ar reiliau a thoeau |
| Bondin Fflemaidd | Dull o osod brics lle ceir brics croes am yn ail â brics ar eu hyd ar bob cwrs gyda'r brics croes yn taro canol y brics ar eu hyd uwchben ac oddi tanynt |
| Deiliog | Addurnedig, yn arbennig a dail wedi'u cerfio arnynt |
| Talcen | Rhan o wal, trionglog yn aml, lle mae'r to yn darfod |
| Gothig | Cyfnod o bensaernïaeth ganoloesol a nodweddir gan y defnydd o'r bwa pigfain |
| Bricsen groes | Wyneb pen sgwâr bricsen |
| Mowldin capan | Mowldin bargodol uwchben bwa neu lintel i daflu'r dŵr oddi arno |
| Lansed | Bwa Gothig pigfain, fel gwaywffon |
| Lintel | Trawst llorweddol a ddefnyddir fel darn gorffen uwchben drws neu ffenestr |
| Un codiad | To ag un codiad |
| Ostler | Rhywun a gâi ei gyflogi mewn stabl i ofalu am y ceffylau |
| Parapet | Nodwedd sy'n cael ei defnyddio i guddio to |
| Pediment | Talcen trionglog rhwng goruwchadail llorweddol a tho ar oledd |
| Pinacl | Meindwr cul ar ben bwtres tŵr |
| Platwydr | Gwydr wedi'i ffurfio'n ddalennau mawr tenau |
| Geudy | Ystafell a chyfleusterau toiled ynddi |
| Conglfaen | Carreg wedi'i naddu a osodir ar gorneli adeiladau |
| Rendrad | Plastro wyneb â phlastr, stwco neu orffeniad arall |
| Ffenestr ddalennog | Ffenestri sy'n symud ar rigolau fertigol, un ai ag un ffrâm yn sownd yn ei lle (un hongiad) neu â'r ddwy yn symud (hongiad dwbl) |
| Asglodi | Difrod a achosir i waith brics gan y tywydd, rhew yn arbennig, lle mae darnau bach o wyneb y brics yn dod yn rhydd |
| Strap Bwyntio | Pwyntio sy'n sefyll yn uwch na'r gwaith brics |

| | |
|---|---|
| Taro Bwyntio | Pwyntio sy'n gadael ychydig o dop y fricsen waelod yn y golwg |
| Llin-gwrs | Cwrs carreg neu fowldin llorweddol sy'n ymwthio allan o wyneb y wal |
| Treswaith | Gwaith carreg wedi'i gerfio'n gywrain, a welir fel arfer ar ffenestri yn yr arddull gothig |
| Meillionen | Tair deilen, yn cyfeirio at unrhyw elfen addurniadol sy'n edrych yn debyg i ddeilen meillionen |
| Tuduraidd | Cyfnod yn hanes Lloegr rhwng 1485 a 1603 |

## Cyfeiriadau


Disgrifiadau Rhestru CADW

Edward Hubbard, 1986. The Buildings of Wales (Denbighshire and Flintshire).

Bethan Jones, 1997. All Saints Church Gresford. The Finest Parish Church in Wales.

Dr Colin Jones, 1995. Gresford Village and Church and Royal Marford.

Jones, 1868. Wrexham and its neighbourhood.

A.N. Palmer, 1904. A History of the Old Parish of Gresford.

Sydney Gardnor Jarman. The Parishes of Gresford and Hope: Past and Present.

Gresffordd, Eglwys yr Holl Saint Gresffordd, y Grŵp Ieuenctid-Teulu, Mai 1993. The Wells of Gresford.

Cofnod Safleoedd a Henebion Rhanbarthol Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys.

Guidance on Conservation Area Appraisals, English Heritage, 2005

Guidance on the Management of Conservation Areas, English Heritage, 2005

Wrexham Maelor Historic Settlements, 1992. Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys.

www.allsaintsgresford.org.uk

www.gresford.org.uk


## Cysylltiadau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol - | www.ihbc.org.uk |
| Cadw: Henebion Cymru - | www.cadw.wales.gov.uk |
| Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain - | www.riba.org |
| Y Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol - | www.spab.org.uk |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig - | www.rics.org.uk |
| Y Grŵp Sioraidd - | www.georgiangroup.org.uk |
| Y Gymdeithas Fictoraidd - | www.victorian-society.org.uk |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys - | www.cpat.org.uk |
| Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol | www.rtpi.org.uk |